

Cofnodion Cyfarfod 11/4/2024

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Moira Mai, Dilys Evans, Rhys Evans, Jacqueline Allen, Fiona Hopkins, Sion McGuinness, Eluned Jones a Huw Antur (*Clerc*).

Hefyd yn bresennol: Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. John C Williams, Tony Parry ac Eric Williams.

Cyhoedd: Neb yn bresennol.

- Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Eifion Roberts. Dymunodd wellhad buan i John Caradog Williams a Megan Parry, ac ymddeoliad hapus i Dilys Evans. Llongyfarchodd dimau rygbi merched Ysgol Godre'r Berwyn yn eu llwyddiant diweddar, yn benodol Saran Jones sydd wedi ennill ei chap cyntaf i dim rygbi Cymru dan 18, ac hefyd Dim Pêl-droed y Bala ar chwarae mewn cystadleuaeth yn Ewrop unwaith eto. Tynnodd sylw at y ffaith fod y Cyfnod wedi ymddangos unwaith eto, a bod llun o'r Maer wedi ei baratoi ac yn barod i'w osod yng Nghanolfan Henblas.
- Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Eifion Roberts yn eitem 9(vii), sef cais Ysgol Godre'r Berwyn.
- Cofnodion:** Ar ôl nodi fod y Cyng Fiona Hopkins hefyd yn gweithio ar brosiect bioamrywiaeth (eitem 7 ii) fe gadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 7/3/24.
- Materion y Clerc / Materion yn codi:**
 - Y Cyng John C Williams: Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cynghorydd Williams, hyn oherwydd cyflwr ei iechyd. Nodwyd ei fod wedi gwasanaethau'r cyngor a thref y Bala ers 48 mlynedd, ac y bydd angen ei anrhegu i gydnabod y cyfraniad aruthrol yma. Cafwyd trafodaeth ar drefniadau llenwi'r sedd, a nodwyd y bydd angen hysbysebu'r cyfle i alw etholiad, gan symud ymlaen i gyfethol os na chynhelir etholiad.
 - Cynllun Creu Lle: Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn aros am adroddiad drafft gan gwmni The Urbanists.
 - Cynllun Celf Canol Trefi: Yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd fe gytunwyd ar safleoedd at gyfer gwaith celf cyhoeddus posibl, sef safleoedd ger Canolfan Bro Tegid, ffens ger y Stad Ddiwydiannol a safle ger y Coop.
 - Mainc y Stryd Fawr – adroddwyd fod trefniadau yn eu lle i drwsio'r fainc ger cofeb Tom Ellis fel y bydd y tywydd yn gwella.

- v. Prosiect Diogelwch Cymunedol: Adroddwyd fod cryn ddiddordeb yn y daflen i hyrwyddo'r cynllun Smartwater, a dywedodd y Cyng Clare Mackintosh y byddai'n ei hyrwyddo ymhellach yn y Cyfnod.
- vi. Trefniadau Triathlon 2024: Cytunwyd i hysbysu Cyngor Gwynedd nad oes gan y Cyngor Tref wrthwynebiad i'r bwriad o gau'r ffordd ar gyfer y Triathlon. Nodwyd hefyd y bydd Tim Lloyd o gwmni Camu i'r Copa, trefnwyr newydd y Triathlon, yn dod i gyfarfod mis Mai o'r Cyngor Tref.
- vii. Croesfan ger Ysgol Godre'r Berwyn: Nodwyd fod y gwaith yn mynd rhagddo, ac y bydd cyfnod i ail asesu'r sefyllfa yn dilyn y gwaith.
- viii. Grŵp Busnesau'r Bala: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r Grŵp Busnesau ar Fawrth 13eg, pryd y trafodwyd prosiectau gosod basgedi blodau, gosod raciau beics, trefniadau'r Tro Trefol a bwrdd gwybodaeth Tomen y Bala. Cytunwyd i symud ymlaen yn y lle cyntaf gyda basgedi blodau i'r dref, hyn gyda chydweithrediad Clwb Garddio'r Bala a Phwyllgor y Bala – Yma o Hyd, a gyda chymorth ariannol Cronfa Llesiant Gymunedol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- ix. Materion Stryd Fawr y Bala: Cytunwyd i drefnu cyfarfod ar y cyd gyda swyddogion Adran Priffyrdd Gwynedd, Asiantaeth Cefnffyrdd y Llywodraeth a Pharc Cenedlaethol Eryri i drafod Rhaglen Waith o welliannau i'r Stryd Fawr.
- x. Cynllun Fynyls ar ffenestri siopau gweigion: Cafwyd manylion cyswllt ar gyfer perchenogion siopau gwag er mwyn cael eu caniatâd i osod murlun finyl ar y ffenestri.
- xi. Cynllun Perthyn: Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i fabwysiadu polisi o ystyried y Gymraeg ymhob penderfyniad o eiddo'r Cyngor Tref, ac i nodi hyn fel datganiad yn nogfennaeth y cyngor.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y soniodd am sefyllfa ariannol anodd y cyngor, hyn yn arwain at doriadau anorfod, a'r rhagolygon y gall y sefyllfa waethygu eto.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Adroddwyd fod trefniadau'r dathlu yn symud ymlaen, gyda sticeri Yma o Hyd gyda logo'r dathliadau wedi eu paratoi ac yn barod i'w dosbarthu. Adroddwyd fod cod QR yn cael eu paratoi ar gyfer safleoedd y Tro Trefol, fel bo modd creu taith rithiol o'r dref. Adroddwyd fod swyddog cyhoeddusrwydd yn cael ei benodi ar gyfer y gwaith hyrwyddo, a nodwyd fod Tony Parry wedi ymddiswyddo o'r pwyllgor am resymau personol. Nodwyd fod angen mwy o siaradwyr Cymraeg ar y pwyllgor – y Cyng Clare Mackintosh a Dilwyn Morgan i drafod hyn ymhellach.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

- i. Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar: Cafwyd trafodaeth bellach ar safle meinciau ac arwyddion ger Siop Ria, ac fe awgrymwyd symud yr arwydd ac adleoli'r fainc – y Cyng Dilwyn Morgan i drafod hyn ymhellach hefo'r swyddog perthnasol o Gyngor Gwynedd.
- ii. Is-bwyllgor bioamrywiaeth: Cafwyd trafodaeth ar ddod yn dref 'gwenyn gyfeillgar', ac fe awgrymwyd peidio torri gwair ar lecyn ger croesffordd Heol Ffrydan er mwyn annog bywyd gwyllt.

Cynrychiolwyr ar fudiadau:

- i) Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod papur wythnosol y Cyfnod wedi cael ei gyhoeddi, hyn am gyfnod arbrofol o 12 wythnos. Nodwyd hefyd fod y cwmni yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu cludiant cymunedol, ac yn trefnu gŵyl Fwyd yn y dref ar ddiwrnod Ffair y Bala.

8. **Materion Cynllunio:** NP5/53/LB129F: Diwygio amod rhif 5 ynghlwm i ganiatad adeilad rhestredig Coleg y Bala. Nid oedd gan y cyngor sylwadau pellach ar y cais.

9. Materion Cyllid:

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £15,240.56 yn y cyfri cyfredol, £16,507.89 yn y cyfri cadw a £726.94 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.
- ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad treth a chyflog y Clerc, anfoneb Cwmni Pum Plwy Penllyn am ddefnydd o ystafelloedd cyfarfod, anfoneb yswiriant y cyngor am y flwyddyn 2024/2025, aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn ac anfoneb Sefydliad y Merched am gostau dathlu y Bala, Yma o Hyd.
- iii. Ceisiadau am gymorth ariannol: Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniadau ariannol, ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £150 i Ysgol Godre'r Berwyn tuag at gostau creu cegin i Theatr Derek Williams, ac i dalu costau'r ysgol i osod cyflenwad dwr i'r ardd gymunedol (hyn o Gronfa'r Maer). Penderfynwyd peidio cyfrannu at Eisteddfod Llangollen.
- iv. Nodwyd fod £1,800 wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd tuag at gostau cynnal a chadw Tomen y Bala.
- v. Nodwyd derbyn Hysbysiad Archwilio cyfrifon y cyngor.

10. Gohebiaeth:

- i. Ymgynghoriad Senedd Cymru – Rhestr Ymgeiswyr Etholiadol: Derbyniwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad. Nid oedd sylwadau pellach.
- ii. Heddlu Gogledd Cymru – derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod yr Heddlu ar Fai 3ydd, ac fe gytunodd y Cyng Jacqueline Allen a Dilys Evans i gynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod.
- iii. Mainc a choeden goffa: Derbyniwyd ceisiadau am awgrymiadau lleoliad mainc a choeden goffa, a nodwyd rhai safleoedd posibl yn y dref.
- iv. Cronfa Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa gymunedol hon.
- v. Coetiroedd bach: Derbyniwyd gwybodaeth am gronfa i greu coetiroedd, ac awgrymwyd y gellid trafod hyn gyda Ysgol Godre'r Berwyn (Eifion Roberts a Fiona Hopkins i gynorthwyo).
- vi. Hanes y Bala ar Ffonau Clyfar: Nodwyd fod Pwyllgor y Bala – Yma o Hyd mewn cysylltiad â'r cwmni yma, ac y gallai haneswyr lleol fod o gymorth wrth baratoi deunydd.

- vii. Tai ar Daith: Derbyniwyd gwybodaeth am sesiwn wybodaeth tai gyda Chyngor Gwynedd yn Nolgellau ar Fai 16eg.
- viii. Un Llais Cymru – Grŵp Ffocws Ieuenctid: Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â Grŵp Ffocws Ieuenctid Cynghorau Cymuned a Thref.
- ix. Arolwg Ail Gartrefi: Derbyniwyd yr arolwg yma gan gwmni ymchwil sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i werthuso cynllun peilot ail gartrefi Dwyfor, a gofynnwyd i'r clerc anfon y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.
- x. Ymgynghoriad Erthygl 4 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd copi o lythyr a anfonwyd at bob cartref yn yr ardal yn tynnu sylw at fwriad Awdurdod y Parc i weithredu Erthygl 4, fyddai'n golygu fod angen caniatâd cynllunio i drosi cartref parhaol yn ail gartref neu yn uned wyliau.

11. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i) Ymddygiad ger yr Hafan: Nodwyd fod y mater wedi ei sortio.
- ii) Gwefan Visit Bala: Adroddwyd nad oes neb yn gyfrifol am y wefan yma ar hyn o bryd, a'i bod angen ei diweddarau. Trafodwyd y syniad o gael un wefan i'r dref, ac fe gytunwyd i roi'r mater ar agenda nesaf y Cyngor Tref o dan y pennawd Twristiaeth Gymunedol.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 2 Mai 2024.